

Cylchlythyr Buddsoddi a Monitro

Diweddariad: Gorffennaf 2026

Mae'r cylchlythyr hwn yn seiliedig ar ymholiadau a gafwyd gan y sector ac unrhyw ddiweddariadau perthnasol ynghylch Medr. Rydym yn croesawu unrhyw adborth ynghylch fformat y cylchlythyr hwn: BuddsoddiadaMonitro@medr.cymru.

Os hoffai unrhyw gydweithwyr gael y cylchlythyr, gofynnwch iddynt gysylltu â ni gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost uchod.

Diweddariadau cyffredinol

- Mae'r Datganiad Polisi Buddsoddi bellach ar agor i ymgynghori arno. Byddem yn ddiolchgar pe gallech gyflwyno ymatebion erbyn 3 Awst 2026.
 - [Medr/2026/25: Ymgynghoriad ar y Datganiad Polisi Buddsoddi – Medr](#)
- Mae'r manylebau canlynol ar gyfer 2026/27 ar gael ar wefan Medr:
 - Safon Uwch Hyblyg; Dysgu Oedolion yn y Gymuned; Safon UG Uwch; Cyfryngau Digidol a'r Dyfodol Uwch; Peirianeg Uwch, TGCh a Pheirianeg Hybrid Uwch; TG Uwch; Rhaglen y Dyfodol; Cronfa Gweithgareddau Ymgysylltu â Dysgwyr; Cymwysterau Galwedigaethol; Cyfrif Dysgu Personol; Lleoliad Uwch; Academiâu Sgiliau Sector â Blaenoriaeth; a Hepgor Ffioedd Addysg Uwch Ran-amser Israddedig

Cyllid amser llawn

Cyfeiriadur Rhaglenni

- Mae'r Cyfeiriadur Rhaglenni wedi'i atodi ar gyfer y sector yn y Gymraeg a'r Saesneg ar ffurf ffeil Excel. Byddwn hefyd yn lansio adroddiad byw ar wefan Medr,

gan ganiatáu i ddefnyddwyr hidlo ar gyfer rhaglenni penodol. Bydd yr adroddiad yn cael ei ddiweddarau bob dydd i adlewyrchu unrhyw newidiadau i'r cyfeiriadur. Gan nad yw Microsoft yn cefnogi allforio o'r adroddiad byw ar hyn o bryd, bydd defnyddwyr yn gallu lawrlwytho fersiwn PDF, a fydd yn cael ei diweddarau pryd bynnag y bydd y cyfeiriadur yn newid.

Rydym yn croesawu adborth gan y sector. Cysylltwch â BuddsoddiadaMonitro@medr.cymru i ofyn unrhyw gwestiynau neu i wneud sylwadau.

Cyllid rhan-amser

Cymwysterau Cyfrif Dysgu Personol sydd newydd eu cymeradwyo

Cyfeirnod nod dysgu'r Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau (Ofqual)	Rhif cymeradwyaeth Cymwysterau Cymru	Teitl	Cod y rhaglen (LP74)	
P0000826	P0000826	Rhaw lwytho ag olwynion RTITB	9700FXXV	Haen 6 £1,430
P0000827	P0000827	Gweithredwr peiriant tyrchu 360° â thrac ac olwynion RTITB (dan 10 tunnell)	9700FXXV	Haen 6 £1,430
P0000828	P0000828	Peiriant tyrchu 180 RTITB (dros 5 tunnell)	9700FXXV	Haen 6 £1,430

Dysgu Oedolion yn y Gymuned

1. Noder nad yw'r cymwysterau a restrir yn Atodiad D o'r [Fframwaith Cyllido Ôl-16: Canllawiau a Chyfeiriadur Rhaglenni](#) yn gymwys i gael cyllid yn 2025/26 a 2026/27. Dylai darparwyr sicrhau nad yw'r cymwysterau hyn wedi'u cynnwys mewn darpariaeth a ariennir drwy Medr.
2. **Nodyn atgoffa ynghylch ystadegau:** proses cysoni data deilliannau dysgwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned
Mae proses cysoni data deilliannau dysgwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn cwmpasu pob dysgwr Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn seiliedig ar y canlynol:
LP17 = '30' neu mae LA03 yn dechrau gyda chod 'A', neu mae'r maes LA03 / LA28 yn gyfuniad masnachfaint.

Mae tair elfen i'r broses o gysoni data Dysgu Oedolion yn y Gymuned:

1. Adroddiadau Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru – Hysbysu, sy'n cwmpasu darpariaeth a gyflwynir yn uniongyrchol ar gyfer pob awdurdod lleol:
 - a. Cyfraddau cwblhau, cyrhaeddiad a llwyddo Adroddiad 1 yr awdurdod lleol
 - b. Croeswiriad ansawdd data Adroddiad 2 yr awdurdod lleolCafodd hwn ei ddiweddarau bob mis o fis Mai i fis Rhagfyr. Rydym nawr yn newid hyn i fisol drwy gydol y flwyddyn.
2. Adroddiadau deilliannau dysgwyr dros dro, sy'n cwmpasu'r holl ddysgu Dysgu Oedolion yn y Gymuned ar lefel partneriaeth. Rydym yn anfon rhain drwy e-bost yn fisol o fis Mai i fis Rhagfyr.
3. Taenlenni crynodeb yn ôl cyfuniadau LA03 – LA28. Mae cael y rhaniadau hyn yn caniatáu i unigolion weld adroddiadau ar gyfer modelau cyflawni penodol. Rydym yn anfon rhain drwy e-bost at y darparwr arweiniol (yn seiliedig ar LA03) ac yna gall y darparwr arweiniol rannu'r adroddiadau ag eraill yn ôl yr angen. Anfonir y rhain allan bob mis o fis Mai i fis Rhagfyr.

Yn y mis cyn y oedi terfynol ym mis Rhagfyr, rydym yn diweddarau pob un o'r uchod yn wythnosol.

Allbynnau terfynol data deilliannau dysgwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned

Dyma'r allbynnau terfynol:

1. Yr adroddiad ar ystadegau lefel genedlaethol [Sta/Medr/06/2026: Mesurau deilliannau dysgwyr ar gyfer prentisiaethau a dysgu oedolion yn y gymuned, Awst 2024 i Orffennaf 2025](#). Mae hyn wedi'i drefnu ar gyfer mis Chwefror 2027 ar gyfer blwyddyn academiaidd 2025/26.
2. Yr Adroddiad Deilliannau Dysgwyr sy'n cyd-fynd â'r adroddiad uchod (yn y blwch porffor) ac sy'n dangos deilliannau ar lefel partneriaeth.
3. Adroddiadau meincnodi Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru – Hysbysu:
 - Adroddiad Dysgu Oedolion yn y Gymuned 1: Cymhariaeth o berfformiad pob aelod o'r bartneriaeth
 - Adroddiad Dysgu Oedolion yn y Gymuned 2: Cymhariaeth o weithgareddau dysgu ar gyfer grwpiau o ddysgwyr
 - Adroddiad Dysgu Oedolion yn y Gymuned 3: Perfformiad gweithgareddau dysgu yn ôl darparwr
 - Adroddiad Dysgu Oedolion yn y Gymuned 4: Perfformiad gweithgareddau dysgu yn ôl partneriaeth

Mae'r rhain yn cwmpasu'r holl ddysgu Dysgu Oedolion yn y Gymuned ar lefel partneriaeth, a dadansoddiadau ar gyfer darparwyr o fewn partneriaeth.

Ein nod yw diweddarau'r rhain yn gymharol fuan ar ôl i'r ystadegau swyddogol gael eu cyhoeddi.

Ar hyn o bryd, ar gyfer holl allbynnau'r bartneriaeth, mae dysgu Addysg Oedolion Cymru wedi'i gynnwys yn seiliedig ar leoliad y dysgu.

Cysylltu â'r tîm ynglŷn ag ymholiadau ynghylch darpariaeth ran-amser

Oherwydd newid mewn cyfrifoldebau o fewn y tîm, anfonwch neges e-bost i BuddsoddiadaMonitro@medr.cymru ynghylch unrhyw ymholiadau am ddarpariaeth ran-amser.

Prosiectau arbennig

- Dim diweddariadau sector y mis hwn.

Cymorth dysgu ychwanegol / anghenion dysgu ychwanegol

- Gweler yr atodiad ar gyfer anghenion dysgwyr: canllawiau ar feysydd Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru